



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Strategaeth Tlodi Plant Cymru



Mawrth 2015



ISBN digidol 978 1 4734 3119 5

© Hawlfraint y Goron 2015

WG24698



Rhagair y Gweinidog

Mae tlodi plant yn annerbyniol ac mae lefelau yng Nghymru'n dal i fod yn ystyfnig o uchel. Mae ein data diweddaraf yn dangos inni bod bron i un plentyn ym mhob tri yn byw mewn aelwyd incwm isel ar hyn o bryd. Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon o Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i newid y sefyllfa hon. Mae'n darparu'r dull strategol ar gyfer mynd i'r afael â'r mater ac mae'n ailddatgan ein huchelgais i sicrhau nad yw'r un plentyn yn byw mewn tlodi erbyn 2020. Rydym yn cydnabod yr heriau enfawr yr ydym yn eu hwynebu wrth gyflawni'r canlyniad hwn, yn enwedig yng ngoleuni effeithiau'r Diwygiadau Lles a'u heffaith anghymesur ar deuluoedd â phlant. Serch hynny, mae'n hanfodol ein bod yn pennu'r cyfeiriad strategol hwn. Rydym am helpu rhieni i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym am ddileu'r rhwystrau hynny sy'n atal llawer o blant a phobl ifanc rhag llwyddo a chyrraedd eu llawn botensial. Ar ben hynny, rydym am liniaru effeithiau tlodi trwy bwyslais parhaus ar fynediad at wasanaethau a chymorth.

Yn dilyn ein hymgyngoriad cyhoeddus dros gyfnod o 12 wythnos, rydym wedi gwneud y penderfyniad i gadw'r tri amcan strategol o Strategaeth Tlodi Plant 2011. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, cynyddu sgiliau a lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd. Gan gydnabod nodweddion newidiol tlodi, rydym hefyd wedi pennu dau amcan newydd. Mae un yn canolbwyntio ar rôl yr economi o ran creu swyddi a thwf i Gymru a mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Mae'r llall wedi'i fwriadu i gefnogi teuluoedd trwy gynyddu incwm aelwydydd a mynd i'r afael â'r premiwm tlodi, lle mae aelwydydd incwm isel yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau.

Deuthum yn Aelod Cynulliad er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru. Fel y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, mae gennyf y cyfle i lywio agenda sy'n cyfrannu at feithrin cadernid yn ein cymunedau mwyaf amddifadus a gwella canlyniadau i'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn y Strategaeth ddiwygiedig hon rydym yn ymrwymo i wneud mwy. Rwy'n gyfrifol am Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Rwy'n bwriadu cyflawni mewn perthynas â'r ddwy o'r rhain trwy weithio gyda'm holl gyd-Weinidogion i sicrhau ffocws parhaus ar hawliau a chydraddoldeb i blant. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar yr holl ysgogiadau sy'n berthnasol i drechu tlodi, mae gennym gyfrifoldeb am wneud yr ymdrech mwyaf posibl lle mae'r cyfleoedd hynny'n bodoli, er mwyn cefnogi aelwydydd incwm isel. Mae addysg, iechyd, yr economi, trafnidiaeth, y celfyddydau a diwylliant, yr amgylchedd a'r sector cyhoeddus i gyd yn feysydd polisi lle gall Llywodraeth Cymru gael effaith arwyddocaol a helpu i greu'r Gymru a garem.

Mae hefyd yn bwysig achub ar y cyfle hwn i fyfyrion ar rai o'n cyflawniadau hyd yma. Mae gennym lawer i fod yn falch ohono yng Nghymru. Mae gennym hanes o fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, cyfundrefn addysg y mae torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad yn greiddiol iddi, a ffocws parhaus ar gefnogi teuluoedd trwy'r cyflog cymdeithasol, sy'n cynnwys teithio â chymhorthdal, mynediad at frechwast am ddim i blant, presgripsiynau am ddim, mynediad at y celfyddydau a diwylliant a chyfres gref o raglenni trechu tlodi sy'n darparu ffocws ar gyfer rhoi gwasanaethau a chymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae'n hollbwysig ein bod yn ystyried sut y byddai tlodi plant yng Nghymru'n edrych, pe na bai'r polisïau a'r rhaglenni hyn wedi cael eu gweithredu dros y degawd diwethaf.

Mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith bod tlodi plant yn fater traws-Lywodraethol ac yn flaenoriaeth i bob adran. Rwy'n falch o fod yn canlyn arni â'r Strategaeth, ar y cyd â'r holl Weinidogion yng Nghymru.



Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Strategaeth Tlodi Plant Cymru: Cyflwyniad

Rhoddodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer Cymru. Cyflawnodd Gweinidogion Cymru y ddyletswydd hon pan gyhoeddodd nhw Strategaeth Tlodi Plant 2011, a bennodd amcanion strategol newydd ar gyfer gwella'r canlyniadau i aelwydydd incwm isel. Roedd Strategaeth 2011 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2011 a 2014 ac felly ym mis Tachwedd 2014, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynnwys a chyfeiriad Strategaeth Ddiwygiedig.

Mae diwygio ein Strategaeth Tlodi Plant wedi rhoi inni'r cyfle i ystyried ai ein dull presennol yw'r dull cywir, a fydd yr amcanion strategol yr ydym wedi'u mabwysiadu yn ein galluogi i gyrraedd ein nod yn y pendraw i ddileu tlodi plant, ac a ydym ar hyn o bryd yn cyflawni newid ar y cyflymder a'r raddfa sy'n angenrheidiol i wneud gwahaniaeth. Gwyddom fod heriau sylweddol o'n blaenau wrth inni geisio gwireddu ein huchelgais i ddileu tlodi plant. Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn, mae'r Strategaeth Tlodi Plant hon yn pennu ein gweledigaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir o ran yr hyn y mae angen ei gyflawni, mewn perthynas â phob un o'n hamcanion. Mae'n cydnabod yr ysgogiadau polisi sydd ar gael inni yng Nghymru ac yn ymrwymo i ddefnyddio'r rhain yn y ffordd fwyaf effeithiol. Byddwn yn parhau i fireinio ein dull, gyda golwg ar ddatblygu cerrig milltir interim ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys ffocws newydd ar sicrhau bod ein strategaethau, ein polisïau, ein cynlluniau a'n rhaglenni i gyd wedi'u cysylltu â'i gilydd i sicrhau ffocws cyson a pharhaus ar blant a phobl ifanc. Mae hawliau plant yn ganolog i'n dull cyffredinol. Mae tlodi yn rhwystr mawr sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cyflawni canlyniadau gwell yn eu bywydau, egwyddor sydd wrth wraidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym hefyd yn ymrwymo i wneud mwy i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, sy'n cynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol, megis pobl anabl a rhai lleiafrifoedd ethnig. Mae'n hollbwysig nad yw'r unigolion hyn yn cael eu gadael ar ôl wrth inni fynd ati i drechu tlodi yng Nghymru, ymrwymiad a adlewyrchir hefyd yng *Nghynllun Cydraddoldeb Strategol* Llywodraeth Cymru.

Fel a ddywedon ni yn ein dogfen ymgynghori, ni ddylai'r Strategaeth Tlodi Plant gael ei hystyried ar ei phen ei hun. Ein *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* yw ein mecanwaith allweddol o hyd ar gyfer cyrraedd y nodau yn ein Strategaeth Tlodi Plant. Bydd ein Hadroddiad Blyneddol ar y Cynllun Gweithredu yn cynnwys camau gweithredu ac ymrwymadau newydd a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u hadnabod fel y rhai pwysicaf ar gyfer trechu tlodi plant. Bydd gwaith gyda phartneriaid o'r Sector Cyhoeddus, y Sector Preifat a'r Trydydd Sector yn parhau i danategu ein dull. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yn gyson na allwn drechu tlodi ar ein pen ein hunain: mae cydweithio a ffocws ar gyflawni canlyniadau cyffredin yn dal i fod yn brif flaenoriaeth.

Targed i Ddileu Tlodi Plant Erbyn 2020

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i'r uchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn her eithriadol, yn enwedig oherwydd effaith a maint y diwygiadau lles a'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Nid yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar yr holl ysgogiadau ar gyfer dileu tlodi plant. Mae ysgogiadau a allai wneud cyfraniad pwysig, megis newidiadau i'r gyfundrefn treth a budd-daliadau, yn faterion heb eu datganoli ac yn rhai y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt.

Yn erbyn y gefnlen hon, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu gyda'r ysgogiadau a'r cyllidebau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ein dull. Mae angen i'r cyfraniad y bydd pob un o Adrannau Llywodraeth Cymru yn ei wneud gael ei ddiffinio'n eglur. Mae'n hanfodol datblygu canlyniadau a cherrig milltir interim. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda holl Adrannau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol i adolygu ein sefyllfa bresennol, i sefydlu ffocws newydd ar dlodi plant ac i adeiladu ar y gweithgareddau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Diffiniad a Dangosyddion

Diffiniad

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad o dlodi a fabwysiadwyd gennym yn Strategaeth Tlodi Plant 2011:

“Gyda thlodi, rydym yn golygu'r cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn.”

Dangosyddion

Y dangosydd allweddol ar gyfer tlodi plant yw canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd sydd ag incwm islaw 60 y cant o incwm aelwyd canolrifol y DU (Ar Ôl Costau Tai). Mae incwm o bwys am ei fod yn adnodd allweddol sy'n galluogi aelwydydd i ddiwallu eu hanghenion.

Fodd bynnag, mae ffactorau eraill y mae angen eu hystyried hefyd. Fe nododd Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn ddiweddar, er enghraifft, “the cost, availability and quality of essential goods and Services also matters” a hefyd “a look at expenditure, as well as income, can help to better understand issues such as debt or the longevity of poverty” (Papur Rhaglen JRF 2014).¹

Yn ogystal â defnyddio incwm aelwydydd i fesur tlodi, byddwn yn parhau i ddefnyddio set o ddangosyddion (sy'n rhan o'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi) i fesur canlyniadau aelwydydd incwm isel. Mae'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac maent yn canolbwyntio ar addysg, iechyd, tai a sgiliau.


Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

Mae tlodi plant yng Nghymru'n dal i fod yn ystyfnig o uchel. Er y bu peth cynnydd yn negawd cyntaf y mileniwm i ostwng nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd y mae eu hincwm islaw 60 y cant o incwm canolrifol y DU, yn fwy diweddar bu'n anodd cyflawni'r lefel o newid y mae ei hangen a fyddai'n ein galluogi i gyrraedd y targed yn 2020. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yn dangos inni bod 31 y cant o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi yn ôl yr amcangyfrifon, am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2010/11 a 2012/13 (Ar Ôl Costau Tai). Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 200,000 o blant dan 18 oed. Fel y dangosa Ffigur 1, mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi wedi aros yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill y DU.

¹ Papur Rhaglen Sefydliad Joseph Rowntree (Medi 2014) “A Definition of Poverty” gan Chris Goulden a Conor D'Arcy.

28 y cant yw'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Lloegr, 24 y cant ar gyfer Gogledd Iwerddon a 21 y cant ar gyfer yr Alban.

Ffigur 1: Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd sydd ag incwm islaw 60 y cant o incwm aelwyd canolrifol y DU (Ar Ôl Costau Tai)



Nid oes datrysiadau syml i ddylanwadu ar y prif ffigyrau tlodi. Yn aml mae ffactorau lluosog ar waith. Effeithir ar dlodi yng Nghymru gan ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rôl economi ehangach y DU a'r adferiad parhaus ar ôl y dirwasgiad diweddar. Mae'n anrnod y bydd newidiadau i'r gyfundrefn treth a budd-daliadau yn effeithio ar y prif ffigyrau tlodi ac yn cyfrannu at faint yr her yr ydym yn ei hwynebu. Mae dadansoddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) o effaith diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU yng Nghymru'n awgrymu mai'r aelwydydd hynny sy'n agos at y llinell dlodi (ac yn arbennig y rhai â phlant) yw'r rhai y disgwylir iddynt golli'r mwyaf o incwm ar gyfartaledd (Phillips, 2014), a fydd yn effeithio'n negyddol ar lefelau tlodi plant.²

Ar yr un pryd, mae rhagfynegiadau ar gyfer y DU gan IFS yn dangos bod yr effaith o ran lleihau tlodi y mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ei chael yn cael ei gwrthbwysu gan effeithiau diwygiadau eraill, yn arbennig y newid i fynegeo'r rhan fwyaf o fudd-daliadau ar gyfer pobl o oedran gweithio yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae'r newidiadau i dreth a budd-daliadau yn rheswm allweddol dros dlodi cynyddol, ac yn egluro mwy na hanner y cynnydd a ragwelir mewn tlodi plant

² Ffynhonnell: Phillips, D. (2014) The distributional effects of the UK Government's tax and welfare reforms in Wales: an update. <http://www.ifs.org.uk/publications/7258>

erbyn diwedd y degawd gan ddefnyddio'r mesur incwm isel absoliwt (Browne et al. 2014).³

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd heb waith mewn perygl yn arbennig o fyw mewn tlodi. Er bod canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith wedi bod yn gostwng ers 2009 (o 20% yn 2009 i 16.5% yn 2013), mae nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yn dal i fod yn uchel ar 86,000 (ar 31 Rhagfyr 2013). Mae argaeledd cyfleoedd cyflogaeth yn ffactor hanfodol, sy'n rhan o'r darlun ar y cyfan. Ers datganoli, bu twf cyflymach mewn swyddi yn y Sector Preifat yng Nghymru nag yn y DU gyfan ac mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru hefyd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd hanesyddol. Ond mae'n bwysig cydnabod bod nodweddion tlodi yn newid. Er mai bod mewn cyflogaeth sy'n cynnig y llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi, a bod hynny hefyd yn diogelu i raddau helaeth rhag byw mewn tlodi parhaus, nid yw gwaith wastad yn gwarantu y bydd pobl yn symud uwchlaw'r llinell tlodi.

Mae tystiolaeth o ddadansoddiad a gwblhawyd gan Sefydliad Joseph Rowntree (2013) yn awgrymu bod mwy o bobl bellach yn byw mewn aelwydydd yng Nghymru lle mae rhywun yn gweithio nag sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes rhywun yn gweithio. Mae dadansoddiad o'r data diweddaraf ar gyfer Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yn dangos, yn y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2012/13, fod tua dau blentyn ym mhob deg yng Nghymru'n byw mewn incwm isel cymharol (Ar Ôl Costau Tai) ac mewn aelwyd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio. Er bod nifer y bobl sy'n ymgymryd â chyflogaeth wedi parhau i gynyddu, mae ffactorau megis y mathau o swyddi sydd ar gael (e.e. sgiliau isel / rhan-amser), natur dymhorol cyfleoedd cyflogaeth a lefelau cyflogau oll yn debygol o gael effaith ar allu aelwydydd i ennill digon i'w codi allan o dlodi. Mae angen i gamau i fynd i'r afael â'r materion hyn a lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi mewn gwaith fod yn rhan bwysig o'n dull cyffredinol.

Ceir ffactorau eraill hefyd y mae angen inni eu hystyried, yn enwedig o ran ffocws ar atal tlodi yn y tymor hirach. Gwyddom fod plant sy'n cael eu magu ac yn byw mewn aelwydydd incwm isel mewn mwy o berygl o lawer o gael canlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwaeth, yn llai tebygol o gyrraedd cerrig milltir gwybyddol a datblygiadol yn y blynyddoedd cynnar, yn blant â chyrhaeddiad addysgol is, yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng 16 a 24 oed, ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith ac yn byw mewn tlodi fel oedolyn.

Mae cynnydd pwysig yn cael ei wneud mewn perthynas â rhai dangosyddion allweddol. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng bob blwyddyn ers 2006 (o 15.7% yn 2006 i 9.7% yn 2013). Rydym hefyd yn parhau i wella canlyniadau plant bach trwy raglenni megis Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Er hynny, mae'r gwaith o leihau anghydraddoldebau a "chau'r bwlch" sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cymryd yn hwy i'w gyflawni. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) yn dal i beidio â gwneud cystal ar draws yr holl gyfnodau allweddol: mae data 2014 yn dangos bod canran y disgyblion 15 oed (CA4) a oedd yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim ac a gyflawnodd Lefel 2

³ Ffynhonnell: Browne, J., Hood, A. a Joyce, R. (2014) Child and working-age poverty in Northern Ireland over the next decade: An Update. <http://www.ifs.org.uk/publications/7054>

gan gynnwys Cymraeg / Saesneg a Mathemateg yn 27.8%. Er bod hyn yn gynnydd o ddau bwynt canran o 25.8% yn 2013, mae'r gwahaniaeth canrannol rhwng disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim pan ydynt yn 15 oed yn dal i fod yn uchel (33.8 pwynt canran yn 2014). Ar yr un pryd, bu gostyngiadau pwysig yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, trwy weithredu'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r ymrwymadau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ar gyfer pobl ifanc yn y grŵp oedran 16 i 18, er bod nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y grŵp 19 i 24 yn dal i fod yn uchel.

Mae angen inni fyfyrho hefyd ar yr hyn y mae'r dystiolaeth bresennol yn ei ddweud wrthym am ein dull presennol. Roedd y gwerthusiad diweddar o ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi plant yn awgrymu nad yw'r rhaglen yn ddigon eang ar hyn o bryd i gael effaith ar y lefel ofynnol, o ran trechu tlodi. Ar ben hynny, mae llawer o'r gwasanaethau, prosiectau a rhaglenni sy'n cefnogi aelwydydd incwm isel yn seiliedig ar gyllid grant byrdymor. Bydd gweledigaeth fwy hirdymor, ochr yn ochr â buddsoddi adnoddau a chynllunio cysylltiedig dros gyfnod hwy yn helpu i sicrhau mwy o gynaliadwyedd a sefydlogrwydd.

Mae'n hanfodol ein bod yn canfod mwy o gyfleoedd i'n galluogi i gyflawni newid ar y lefelau angenrheidiol. Er enghraifft, mae ein *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* yn cydnabod rôl tai ac adfywio, caffael cyhoeddus a dull sy'n sicrhau manteision cymunedol, o ran creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Roedd y gwerthusiad yn nodi hefyd bod angen gwneud mwy i gysylltu nodau ein Strategaeth Tlodi Plant â strategaeth economaidd gyffredinol Llywodraeth Cymru. Roedd hwn hefyd yn fater allweddol a godwyd gan randdeiliaid allanol yn ystod y cyfnod y buom yn ymgynghori ar y Strategaeth. Mae economi a marchnad lafur gref, a ffocws ar greu swyddi ac ar rôl gwahanol sectorau cyflogaeth, yn hanfodol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn awr yn ein hamcanion strategol ar gyfer trechu tlodi plant.

Trechu tlodi yng Nghymru: Beth mae angen inni ei gyflawni, sut mae llwyddiant yn edrych a beth yw'r rhwystrau allweddol...

Mae angen inni barhau i ddatblygu ein dealltwriaeth am yr hyn y bydd angen ei wneud er mwyn cyflawni'r newid sy'n ofynnol yn y prif ddangosydd poblogaeth ar gyfer tlodi plant. Fel rhan o'r gwaith i ddiwygio a chryfhau ein dull o drechu tlodi plant, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r canlyniadau yr ydym yn amcanu at eu cyflawni.

Byddwn yn penerfynu beth mae hyn yn ei olygu o ran llai o blant mewn aelwydydd heb waith, rhoi cymorth i bobl gael cyflogaeth, rhoi cymorth i'r rhai sy'n ennill yr ail gyflog ddechrau gweithio, llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd ac addysg a chynyddu nifer yr oedolion â sgiliau sylfaenol. Bydd asesu a modelu tueddiadau allweddol yn ein helpu i ddeall yr hyn y mae angen ei gyflawni ac erbyn pryd, er mwyn inni ddileu tlodi plant.

Byddwn yn defnyddio'r asesiad hwn i ddatblygu canlyniadau a cherrig milltir interim. Bydd hyn yn sail i ddull strategol Llywodraeth Cymru o drechu tlodi plant a gwaith yn y dyfodol i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn aelwydydd incwm isel, a fydd yn cael ei wneud gan Adrannau Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithio mewn partneriaeth a dull cydweithredol ar gyfer mynd ati i drechu tlodi plant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod canlyniadau a cherrig milltir interim yn cael eu cyflawni. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allanol, Hyrwyddwyr Gwrthdlodi Awdurdodau Lleol ac aelodau Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru wrth inni ganlyn arni â'r gwaith yma.

Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion Strategol ar gyfer Trechu Tlodi Plant: Ffocws ar y tymor byr, canolig a hir

Mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth wedi amlygu pwysigrwydd cadw'r tri amcan strategol o Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i gyflawni'r amcanion canlynol:

- 1) Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, gan fod plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith mewn perygl yn arbennig o fyw mewn tlodi .
- 2) Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, fel eu bod yn gallu sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda a datblygiad mewn gwaith, gan fod tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol.
- 3) Lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd trwy wella canlyniadau'r tlotaf. Mae atal tlodi'n hanfodol i'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer cefnogi aelwydydd incwm isel.

Mae'r tri amcan yma'n adlewyrchu'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Yn bwysicach byth, maent hefyd yn adlewyrchu'r hyn y mae'r dystiolaeth bresennol yn ei ddangos inni am y ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu i wella canlyniadau teuluoedd incwm isel. Fodd bynnag, mae dystiolaeth o'n gwerthusiad o'r Strategaeth Tlodi Plant yn awgrymu bod yr amcanion hyn yn fwy tebygol o gael effaith yn y tymor hirach. O ganlyniad, mae'r Strategaeth hon hefyd yn cynnwys dau amcan newydd sy'n canolbwyntio ar wella amgylchiadau a chanlyniadau teuluoedd incwm isel yn y presennol.

Yr amcanion hyn yw:

- Defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru.
- Helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd trwy gyngor ynghylch dyledion a chynghor ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles.

Tanategir yr amcanion hyn gan ffocws sylfaenol ar hawliau dynol plant a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a lleihau anghydraddoldebau.



Trechu Tlodi Plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n amddiffyn hawliau dynol plant dan 18. Mae gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc o gefndiroedd incwm isel yn ganolog i gyflawni'r amcanion mewn perthynas â hawliau plant yng Nghymru. Mae bod mewn tlodi'n rhwystr sylfaenol sy'n atal plant a phobl ifanc rhag manteisio ar eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell. Mae Erthygl 26 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (mae gan blant - naill ai trwy eu gwarcheidwaid neu'n uniongyrchol - yr hawl i gael cymorth gan y Llywodraeth os ydynt yn dlawd neu mewn angen) ac Erthygl 27 (mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol) yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â thlodi o ran incwm ac amddifadedd materol. Mae hawl pob plentyn i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer ei ddatblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn elfen allweddol. Dylai pob llywodraeth ddarparu cymorth materol a rhaglenni cymorth, yn enwedig o ran bwyd, dillad a thai

Caiff y cysylltiad uniongyrchol rhwng trechu tlodi plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei nodi yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi'n glir y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i drechu tlodi plant, gan gydnabod bod trechu tlodi'n ymwneud yn gymaint â gwella lles plant ag y mae â mynd i'r afael â thlodi o ran incwm. Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau plant yn cysylltu lles plant â lles rhieni a theuluoedd ac yn gwneud cymorth i deuluoedd yn ganolog i bolisïau i drechu tlodi plant. Er bod y Strategaeth hon yn cydnabod bod tlodi plant yn adlewyrchiad uniongyrchol ar dlodi eu rhieni (a dyna pam y ceir pwyslais ar gynyddu incwm aelwydydd a mynediad at gyflogaeth), rydym hefyd yn deall ac yn cydnabod y plentyn fel deiliad hawliau sydd ag anghenion penodol yn y presennol. Mae'r hawliau hyn yn cyfrannu at wella sefyllfa eu teuluoedd a'u cymunedau, ond gallant ymestyn y tu hwnt i'r teulu hefyd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn rhoi inni'r cyfle i ganlyn arni â chamau gweithredu ac ymrwymadau i fynd i'r afael â materion newydd a datblygol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Ar yr un pryd, bydd sicrhau ein bod yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth inni ddatblygu polisïau a rhaglenni i gefnogi plant a phobl ifanc yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi plant a gwella canlyniadau. Mae'r broses o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant gan Adrannau Llywodraeth Cymru yn gyfle delfrydol i gysylltu'r agendâu hawliau plant a thlodi plant. Byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod tlodi plant yn cael ei ystyried wrth inni ddatblygu ein polisïau a'n rhaglenni trwy gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tlodi plant fel y prif rwystr i sicrhau a chynnal hawliau plant yng Nghymru. Am y rheswm hwn, rydym wedi nodi mai cyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant yw'r ymrwymiad sy'n cael blaenoriaeth gennym o ran yr agenda hawliau plant. Wrth ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, byddwn yn ei gwneud yn glir bod gan bob portffolio ac adran rwymedigaethau a chyfrifoldebau i sicrhau hawliau plant.



Trechu Tlodi a Lleihau Anghydraddoldebau

Mae camau i fynd i'r afael â thlodi plant a chamau i leihau anghydraddoldebau yn ategu ei gilydd, trwy ymrwymadau a nodir yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol*.

Mae'n hanfodol cefnogi grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol sydd mewn mwy o berygl o fyw mewn aelwydydd incwm isel, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn wrth roi'r agenda trechu tlodi ar waith. Gwyddom fod rhai grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl anabl, teuluoedd a chanddynt blant anabl, rhieni unigol (sy'n fenywod yn bennaf) a phobl iau nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn aelwydydd incwm isel. Yn benodol, mae cyfran anghymesur o bobl anabl yn byw ar aelwydydd sy'n economaidd anweithgar ac aelwydydd heb waith. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu y bydd teuluoedd anabl o oedran gweithio, ac yn enwedig y rhai ar incwm isel, yn colli cryn dipyn yn fwy o'u hincwm ar gyfartaledd nag aelwydydd o oedran gweithio nad ydynt yn anabl, o ganlyniad i ddiwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU.⁴

Mae'n annhebygol y byddwn yn dileu tlodi yng Nghymru oni bai ein bod yn ceisio gwneud mwy i helpu pobl anabl i sicrhau canlyniadau gwell a symud ymlaen yn y farchnad lafur. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd y gallwn wella canlyniadau i rieni unigol, ffoaduriaid, y rhai sy'n gadael y gyfundrefn gyfiawnder (yn enwedig pobl ifanc) ac eraill sydd mewn perygl o ddod yn dlawd. Mae hyn yn cynnwys menywod sy'n profi cam-drin domestig. Rydym yn canolbwyntio ar y gwaith yma trwy'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ac ystod o bolisiau ategol. Mae cydraddoldeb yn Thema Drawsbynciol ym mhob un o raglenni allweddol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ac mae'n rhoi cyfle i gymryd camau penodol i dargedu a chynorthwyo'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i adnabod cyfleoedd i "blethu" *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* Llywodraeth Cymru â'r amcanion yn y Strategaeth hon a'n *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*, a chefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny â nodweddion gwarchodedig penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yn arbennig o bwysig ystyried camau gweithredu i gefnogi teuluoedd â phlant anabl a / neu rieni anabl, gan fod yr aelwydydd hyn mewn perygl yn arbennig o fyw mewn tlodi ac yn aml yn wynebu costau byw uwch. Mae gennym ddyletswydd statudol i adolygu a diweddarau'r *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* erbyn 1 Ebrill 2016. Trwy gydol 2015, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda holl Adrannau Llywodraeth Cymru, y Sector Cyhoeddus a rhanddeiliaid ledled Cymru i ddeall y materion hynny sydd bwysicaf yn llygaid pobl ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Byddwn yn rhoi pwyslais arbennig ar ymgysylltu â'r bobl hynny y mae anghydraddoldeb yn cael yr effaith fwyaf dwfn ar eu bywydau er mwyn trefnu amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn y *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* pedair blynedd nesaf (2016-2020).

⁴ Reed, H. a Portes, J. (2014) Cumulative Impact Assessment: A Research Report by Landman Economics and the National Institute of Economic and Social Research (NIESR) for the Equality and Human Rights Commission. Equality and Human Rights Commission Research Report 94. Phillips, D. (2014) The distributional effects of the UK Government's tax and welfare reforms in Wales: an update. <http://www.ifs.org.uk/publications/7258>

Byddwn hefyd yn sicrhau bod trechu tlodi a thlodi plant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ein polisïau a'n rhaglenni trwy Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (fel a nodir ar dudalen 10) ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn arbennig, byddwn yn gweithio i ddatblygu dull integredig o asesu effeithiau, lle mae tlodi a chydraddoldeb yn cael eu hystyried ar y cyd. Bydd hyn yn helpu ac yn galluogi Adrannau i ystyried effeithiau o ran y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi a chael canlyniadau gwaeth, yn ogystal ag effeithiau i blant a phobl ifanc. Bydd hefyd yn cefnogi pwyslais mwy ar fonitro'r canlyniadau i'r grwpiau hynny sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi a'r rhai â nodweddion gwarchodedig, a hynny'n barhaus.

Cyflawni Amcan 1: Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd heb waith

Mae lleihau nifer yr aelwydydd heb waith yn flaenoriaeth hanfodol i Lywodraeth Cymru. Mae adrannau'n gweithio ar draws nifer o wahanol feysydd polisi – gan gynnwys addysg, sgiliau a'r economi – i helpu rhieni i ennill y profiad, y sgiliau a'r hyder i'w galluogi i sicrhau cyflogaeth. Mae gan ein Rhaglenni Trechu Tlodi (ac yn arbennig Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf ac Esgyn) rôl allweddol, yn enwedig o ran cefnogi'r rhai sydd bellaf o'r gweithle. Bydd helpu pobl ifanc i gael cyfleoedd cyflogaeth yn dal i fod yn flaenoriaeth, trwy waith sy'n cael ei wneud trwy'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*.

Dros y tymor canolig, bydd prosiectau a ariennir trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 yn hanfodol i gyflawni'r amcan hwn. Bydd rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn parhau i helpu i gyflawni camau gweithredu i roi cymorth i unigolion di-waith, yn enwedig y rhai â sgiliau isel neu heb sgiliau, fel eu bod yn gallu ennill sgiliau uwch neu sgiliau sy'n fwy perthnasol i waith. Ar yr un pryd, bydd defnyddio dull sy'n sicrhau manteision cymunedol ym mhob agwedd ar gontractau caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan sectorau tai ac adfywio, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gefnogi rhieni sy'n byw mewn aelwydydd heb waith.

Mae datblygu dull arloesol o ddarparu gofal plant yng Nghymru'n allweddol i helpu i gyflawni'r amcan hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gyflwyno cynnig am arian Ewropeaidd i helpu rhieni i gael gwaith lle mae gofal plant yn rhwystr sylweddol. Bydd rhieni'n cael cynnig cymorth a datrysiadau unigol i ddiwallu eu hanghenion gofal plant trwy Gynghorwyr Cyflogaeth Rhieni yn y gymuned, a fydd yn helpu i ddarparu llwybr i swyddi mwy cynaliadwy. Rydym hefyd wedi rhoi £4.3M i CWLWM, consortïwm gofal plant sy'n cynnwys y pum prif sefydliad gofal plant, dan y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd i'n helpu i ddatblygu datrysiadau i'r materion sy'n wynebu teuluoedd o ran cael mynediad at ofal plant.

Cyflawni Amcan 2: Cynyddu sgiliau ymhlith rhieni a phobl ifanc

Mae sgiliau'n cael effaith fawr ar les economaidd a chymdeithasol Cymru. Ynghyd â chymau polisi i gefnogi cyflogadwyedd unigolion, mae sgiliau'n darparu ysgogiad cryf i drechu tlodi a chreu mwy o swyddi a thwf. Cafodd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr agenda sgiliau yng Nghymru ei nodi ym mis Ionawr 2014, pan gyhoeddodd ni'r Datganiad Polisi ar Sgiliau. Cynhyrchwyd *Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau* ym mis Gorffennaf 2014 a hwnnw'n nodi'r camau cyflawni allweddol a fydd yn cael eu cymryd hyd at 2016. Nod y dogfennau hyn yw helpu Cymru i esblygu'n genedl hynod fedrus a chreu'r amodau sy'n galluogi busnesau yng Nghymru i dyfu a ffynnu.

Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu ategol yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymyriadau sy'n ymwneud â sgiliau ôl-19 a'r gweithgareddau sy'n darparu'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer cyflogaeth (h.y. ar gyfer yr unigolion hynny sy'n chwilio am waith) yn ogystal â'r sgiliau hynny y mae eu hangen i wella cyflogaeth rhywun a chefnogi busnesau (h.y. sgiliau'r gweithlu). Rhan annatod o'r *Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau* yw y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall dracio'i sefyllfa o ran cyflogaeth a sgiliau, yn berthynol i'r DU, a sicrhau bod ymyriadau'n cyflawni'r canlyniadau cywir, a fydd yn gysylltiedig â chyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf yn y dyfodol.

Mae'r adran *Sgiliau Cyflogaeth* yn y Cynllun Gweithredu wedi'i chysoni'n sylfaenol â'r agenda trechu tlodi. Mae'n cynnwys ymrwymadau penodol i symleiddio trefniadau ar gyfer cael mynediad at gymorth gyda sgiliau a chyflogaeth, trwy gyflwyno Porth Sgiliau, yn ogystal â darparu trefniadau cymorth cyflogaeth sy'n ychwanegu gwerth at y rhai sydd ar gael trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn cynnwys parhad ein prif raglenni Twf Swyddi Cymru a ReAct. Ceir ymrwymiad hefyd i ehangu'r ddarpariaeth o ran cymorth gyda Sgiliau Hanfodol trwy gyflwyno rhaglen newydd i hybu cyflogadwyedd oedolion, a danategir gan offeryn asesu safonedig i adnabod anghenion o ran llythrennedd a rhifedd. Mae cyflawni'r Strategaeth Sgiliau a'i Chynllun Cyflawni yn hanfodol hefyd i drechu tlodi mewn gwaith yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd cynyddu sgiliau i gefnogi datblygiad mewn gwaith.

Cyflawni Amcan 3: Lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Mae datblygu'r Strategaeth hon yn gyfle i gryfhau ein cydymdrechion i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella'r rhagolygon pan fyddant yn troi'n oedolion. Rydym am i blant a phobl ifanc fod yn rhydd o dlodi. Fodd bynnag, rydym am iddynt fod mor gadarn a galluog â phosibl hefyd. Dylai buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar ac mewn atal tlodi fod yn ganolog i ddatblygu polisïau a rhaglenni ar draws y Llywodraeth. Mae helpu rhieni i ddarparu cartref lle mae plant a phobl ifanc yn gallu dysgu a ffynnu'n hanfodol. Mae cysylltiad anorfod rhwng hyn a ffactorau eraill, megis rhianta da, iechyd a lles meddyliol, canlyniadau addysgol gwell i'r ddau riant a chymorth i deuluoedd.

Y blynyddoedd cynnar a rhianta

Cafodd ein gweledigaeth ar gyfer gwella'r canlyniadau i blant yn y blynyddoedd cynnar ei nodi yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*, 2013. Roedd hwn yn nodi cyfres gytunedig o amcanion i wella ein darpariaeth o ran y blynyddoedd cynnar a gofal plant dros y 10 mlynedd nesaf. Yr her yn awr yw cyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r cysylltiad rhwng tlodi a chanlyniadau addysg gwael yn cael ei gydnabod yn eang ac mae rhannu gwybodaeth am ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar mewn modd effeithiol yn elfen allweddol o'r gwaith i dorri'r cysylltiad hwn. Mae *Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar* wedi'i fwriadu i ddarparu fframwaith asesu cyffredin y gall holl wasanaethau'r blynyddoedd cynnar ei ddefnyddio i asesu datblygiad plant ar yr adegau priodol o'u genedigaeth nes eu bod yn 7 oed, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhan o'r prosiect hwn yw datblygu *Proffil y Cyfnod Sylfaen*. Offeryn asesu yw hwn y gellir ei ddefnyddio i gofnodi a thracio galluoedd datblygiadol plentyn trwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Bydd Proffil y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2015.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar trwy Dechrau'n Deg, sy'n amcanu at roi dechrau gwell mewn bywyd i blant ac yn y tymor hir dylai hyn olygu bod pobl ifanc yn llai difreintiedig oherwydd y cymunedau y maent yn cael eu magu ynddynt. Yn y tymor byr, mae'r rhaglen nid yn unig yn helpu i ddarparu'r sgiliau y mae ar rieni eu hangen i gefnogi datblygiad eu plentyn, ond mae hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt gael mynediad at hyfforddiant a chymorth i wella'u rhagolygon cyflogaeth. Gall y gofal plant rhan-amser o safon a gynigir yn rhad-ac-am-ddim trwy'r rhaglen alluogi rhieni i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad a fydd yn eu helpu i symud tuag at gael cyflogaeth.

Gwyddom fod yr amgylchedd dysgu yn y cartref yn arbennig o bwysig a gall rhianta da wneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol tuag at fywydau plant a phobl ifanc. Mae'n bwysig sicrhau bod y ddau riant yn cael eu helpu i chwarae rhan mewn modd cadarnhaol ym mywydau eu plant. Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar Ymgysylltiad a Chymorth* sydd wedi'u bwriadu i

gynorthwyo'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth rianta i ddarparu gwasanaeth cyson o safon. Bydd yn bwysig adeiladu ar y canllawiau hyn, er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar y cyfraniad y gall rianta da ei wneud at yr agenda trechu tlodi plant.

Bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i danategu gwaith sy'n cael ei wneud i drechu tlodi ar lefel leol hefyd. Mae nodau Teuluoedd yn Gyntaf yn gyson ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant ac mae ystod o wahanol brosiectau'n cyfrannu at helpu rhieni a phlant i gyflawni canlyniadau gwell, yn enwedig o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd, addysg ac economaidd.

Chwarae

Mae cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae'n cyfrannu at liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant ac yn helpu i feithrin eu cadernid a'u lles cyffredinol. Hefyd, mae darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae yn eu cymunedau yn gallu bod yn ffordd o leihau anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n gallu fforddio darpariaeth hamdden gostus a phlant mewn teuluoedd nad ydynt yn gallu ei fforddio gan felly leihau tlodi o ran profiadau i'r holl blant.

Ar 1 Chwefror 2013 mabwysiadodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol sy'n rhoi eglurder i Lywodraethau ledled y byd ynghylch ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 (hawl plentyn i orffwys, hamddena, chwarae, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau). Trwy Sylw Cyffredinol 17, mae'r Pwyllgor yn rhoi anogaeth gref i wladwriaethau ystyried cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau'r hawliau dan erthygl 31 ar gyfer pob plentyn, ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu.

Llywodraeth Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae ac ystyried egwyddor digonolrwydd fel rhan o'i hagenda gwrthdlodi.

Lleihau anghydraddoldebau addysgol

Mae cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd amddifadus yn rhy isel ac mae'r cynnydd i wella canlyniadau wedi bod yn rhy araf. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru, a nodir yn *Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*, yw bod â disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr, ni waeth beth fo'u cefndir, a sicrhau bod ganddynt yr un siawns o gyflawni'r disgwyliadau hynny. Mae *Ailysgrifennu'r Dyfodol* yn alwad i weithredu ar gyfer ysgolion, Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn iddynt ymdrin â'r ffactorau cymhleth sy'n golygu nad yw dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn cyflawni gystal â'u cyfoedion mwy cefnog. Caiff y polisi ei danlinellu gan ymrwymïadau Llywodraeth Cymru a buddsoddiad ariannol sylweddol ganddi trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion a rhaglen Her Ysgolion Cymru. Bydd ysgolion yn cael cymorth i gysoni cyrhaeddiad disgyblion sy'n byw mewn tlodi â chyrhaeddiad disgyblion eraill trwy gyllid ar sail nifer y disgyblion, canllawiau ac adnoddau, a chymorth at ofynion unigol.

Mae torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad yn ffocws allweddol ar gyfer y rhaglen. Mae a wnelo'r rhaglen hon â chydabod bod rhai ysgolion yn wynebu heriau unigryw a bod ar y rhain angen cymorth ychwanegol, mwy dwys, y tu hwnt i'r hyn a ddarperir fel rhan o'r drefn arferol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol cohort yr ysgol a'r ffaith bod llawer ohonynt yn gwasanaethu dysgwyr sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru.

Gan gydnabod y ffaith bod disgyblion o aelwydydd incwm isel yn aml ar ei hôl hi o'u cymharu â'u cyfoedion yn barod pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael ei ymestyn i gynnwys plant dan bump yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd y grant hwn yn helpu parhad o ddarpariaeth Dechrau'n Deg i addysg statudol, yn ogystal â rhoi hwb cynnar i ddisgyblion difreintiedig sy'n byw mewn tlodi ond nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Adlewyrchir disgwyliadau uchel yn y model newydd ar gyfer categorieiddio ysgolion sy'n rhoi'r categori gwyrdd uchaf i ysgolion uwchradd dim ond os ydynt yn helpu disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim i gyflawni'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y tymor byr, byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y Cyfnod Sylfaen o ran lleihau'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a disgyblion mwy cefnog, gyda thargedau diwygiedig i gau'r bwlch ymhellach. Byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i sicrhau bod y cynnydd a wneir yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn arwain at wella siawns disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ennill pum gradd TGAU dda gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i greu cydgysylltiad gwell rhwng cyfleoedd dysgu i oedolion a theuluoedd a chymorth i blant mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni cyllidebau llai a bydd gwaith yn canolbwyntio ar sut i wella'r arlwy trwy ddulliau cydweithredol.

Yn y tymor canolig a'r tymor hir, bydd gwersi a ddysgir o Her Ysgolion Cymru, y Grant Amddifadedd Disgyblion, cynnydd mewn perthynas â'r targedau a'r ymrwymadau yn *Ailysgrifennu'r Dyfodol* a llwyddiannau o rannau eraill o'r DU a thu hwnt yn cael eu datblygu a'u sefydlu mewn addysg brif ffrwd. Bydd ysgolion, fel rhan o'r drefn arferol, yn pennu targedau ymestynnol ar gyfer eu holl ddisgyblion. Bydd y rhai nad ydynt yn gwneud hynny'n cael cymorth a her ychwanegol. Bydd disgwyl mai camu ymlaen at addysg bellach ac uwch a chyflogaeth gwerth uchel fydd y norm i'r holl ddisgyblion, ni waeth beth fo'u cefndir.

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Gwyddom fod angen inni wneud mwy i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd yng nghanlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhieni, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Yn y tymor byr, bydd ein dull o gyflawni'r amcan hwn yn seiliedig ar bedair elfen. Y rhain yw: Gwellu ansawdd yr holl wasanaethau gan sicrhau ar yr un pryd mai'r bobl sydd fwyaf mewn angen sy'n cael y cymorth mwyaf; rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn; helpu pobl i fod ac i aros yn ffit i weithio; a defnyddio arferion cyflogaeth y GIG i helpu i roi sgiliau i bobl o aelwydydd heb waith.

Bydd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn canlyn arni â'r elfennau hyn trwy wella gofal sylfaenol, cynllunio gwell a gwaith i hybu "gofal iechyd darbodus" sy'n sicrhau bod pawb yn cael yr union wasanaeth y mae arno neu arni ei angen. Mae model cynllunio tair blynedd newydd Llywodraeth Cymru yn helpu i adnabod anghenion iechyd a lles lleol a defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae ei chynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru yn cyflwyno prosesau cynllunio lleol ar gyfer cymunedau â phoblogaeth rhwng 25,000 a 100,000. Mae'n amcanu at ddatblygu "clystyrau" gofal sylfaenol yn seiliedig ar grwpiau o bractisiau meddygon teulu lleol. Bydd y rhain yn dwyn ynghyd yr holl sefydliadau a gwasanaethau lleol, y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau tai, yr amgylchedd, trafnidiaeth, addysg, hamdden a'r trydydd sector a'r sector annibynnol, i gydweithio i adnabod a gweithredu datrysiadau lleol i heriau lleol.

Gan ddefnyddio'r model mwy cymdeithasol hwn o iechyd a lles, bydd model cynllunio newydd y GIG yn darparu system iechyd fwy ataliol, seiliedig ar ofal sylfaenol, sy'n gallu lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd a mynd i'r afael â'r ddeddf gofal wrthgyfartal ac effeithiau niweidiol tlodi. Bydd lansi Rhaglen Byw'n Well Byw'n Hirach Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei gymunedau mwyaf amddifadus yn amcanu at ddangos sut y gall hyn weithio'n ymarferol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein *Strategaeth Mamolaeth* a'r Rhaglen Plentyn Iach sydd wrthi'n datblygu yn helpu'r holl blant yn ystod y blynyddoedd cynnar i ddatblygu iechyd corfforol a meddyliol da mewn ffordd sydd wedi'i bwriadu i fod yn sensitif i anghenion grwpiau ac ardaloedd arbennig. Byddwn yn parhau â chynlluniau i gefnogi iechyd pobl yn y gwaith.

Yn y tymor canolig a hir, byddwn yn parhau â'r ffocws hwn ar gynllunio gwell, gan amcanu at atal problemau iechyd, yn enwedig trwy ddefnyddio asedau cymunedol presennol. I gefnogi hyn, byddwn hefyd yn gwella ein systemau gwybodaeth i ganfod yn union ble y mae'r anghenion mwyaf difrifol a byddwn yn targedu gwasanaethau yn unol â hyn, ac yn symud arian yn genedlaethol ac yn lleol at y bobl ac arnynt ei angen fwyaf. Bydd hyn yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, y GIG, llywodraeth leol a'r gymuned ehangach, mewn ymdrechion i leihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gweithio ar draws yr holl feysydd polisi i geisio a manteisio ar gyfleoedd i leihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd y GIG yn gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau i wella eu hiechyd, a chydag asiantaethau eraill i helpu pobl i gael mynediad at ba bynnag wasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Byddwn yn mesur pa mor effeithiol yw ein gwaith yn y maes yma ac yn adrodd ar y canfyddiadau.

Yn y tymor hirach, bydd y ffordd y mae'r GIG yn gweithio o'r brig i'r gwaelod a thrwy gydol bywydau pobl yn canolbwyntio'n llawer mwy effeithiol ar atal problemau a pharu gwasanaethau ag anghenion.

Tai ac adfywio

Mae tai ac adfywio'n hanfodol o ran helpu pobl ifanc a theuluoedd incwm isel i gyflawni canlyniadau gwell. Gall byw mewn tai o ansawdd gwael fod yn niweidiol i iechyd a lles plant a phobl ifanc, gyda'r effeithiau'n para wedi iddynt droi'n oedolion.

Yn arbennig, mae ansawdd ffisegol y cartref yn allweddol i gyfleoedd bywyd plant a bydd yn effeithio ar eu gallu i astudio a ffynnu. Os gallwn wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac ansawdd tai fforddiadwy, rydym nid yn unig yn helpu i atal digartrefedd, ond rydym hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau anghydraddoldebau iechyd ac addysgol.

Mae teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro a'r rhai sy'n ddigartref yn llai tebygol o gael mynediad at wasanaethau cymorth pwysig. Gall digartrefedd gael effaith negyddol sylweddol ar y plant yn yr aelwydydd hyn hefyd gan effeithio ar eu datblygiad a'u cyrhaeddiad addysgol. Ar ben hynny, mae bod â chartref sefydlog a diogel yn bwysig i rieni. Heb hyn, maent yn llai tebygol o sicrhau cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth hirdymor, sydd yn ei dro'n effeithio ar eu hincwm. Maent felly mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi.

O ran ein gweledigaeth ar gyfer y tymor byr (tan ddiwedd y Cynulliad presennol) byddwn yn cyrraedd ein targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol. Bydd dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 mewn grym i atal digartrefedd a'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â hynny. Erbyn 2020, bydd ein rhaglenni lleol presennol dan y fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi cael eu cyflawni, bydd safonau Ansawdd Tai Cymru wedi cael eu cyrraedd a bydd mwy o dai cymdeithasol gyda manteision i gymunedau'n deillio o'r rhain. Dros y pum mlynedd nesaf bydd Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol yn gwneud buddsoddiad cyfalaf enfawr o £2.5 biliwn yn y stoc dai i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. £540 miliwn yw ein cyfraniad ni. Mae'r gwaith yn cynnwys gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a fydd hefyd yn helpu i drechu tlodi tanwydd.

Mae'r dull "Manteision Cymunedol" ym maes caffael yn sicrhau y bydd y buddsoddiad enfawr hwn yng nghartrefi pobl yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith a hyfforddiant i bobl a chymunedau lleol hefyd, gyda phwyslais arbennig ar y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Rydym hefyd yn cymryd camau i gynyddu ein cyflenwad o dai fforddiadwy i ddarparu tai o ansawdd da am rent isel ar gyfer y rhai ac arnynt fwyaf o'u hangen. Erbyn 2030, rydym yn gobeithio gweld gwelliant cyffredinol yn ansawdd y cartrefi a'r cyflenwad o gartrefi a'r mannau o'u hamgylch yn ein cymunedau, gydag ychydig iawn o ddigartrefedd os o gwbl, a hynny'n darparu'r amgylchedd gorau posibl i gefnogi plant a dileu tlodi plant.

Mae deddfwriaeth digartrefedd wedi cael ei gwella o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bydd hyn yn arwain at fwy o help i fwy o bobl. Yn arbennig, bydd yn helpu i osgoi effeithiau negyddol colli cartref a gorfod symud tŷ, sy'n effeithio ar oedolion a phlant fel ei gilydd. Bydd y deddfwriaeth hon yn eistedd ochr yn ochr â'n Rhaglen Atal Digartrefedd a'n Rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae diogelu ein stoc tai cymdeithasol yn bwysig hefyd ac rydym yn ymgynghori ynghylch cynigion i roi terfyn ar yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael sydd, ers rhyw ddeng mlynedd ar hugain, wedi bod yn achosi gostyngiad sylweddol yn nifer y cartrefi cymdeithasol sydd ar gael i helpu pobl nad ydynt yn gallu manteisio ar y marchnadoedd tai. Mae datblygu a chynnal tai cymdeithasol yn un o'r ffyrdd allweddol y gellir defnyddio polisi tai i drechu tlodi. Mae'r manteision yn ymestyn i oedolion a phlant. Fodd bynnag, nid yw ein hymrwymiad yn gyfyngedig i dai

cymdeithasol ac rydym yn ymagnïo i ddod o hyd i ffyrdd gwell o helpu pobl gan gynnwys y rhai yn y Sector Preifat. Er mwyn gwella cartrefi o ansawdd gwael rydym wedi lansio cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi gwerth £10 miliwn yn ddiweddar i gynorthwyo perchnogion cartrefi o safon israddol trwy ddarparu cyllid di-log i wella eu tai fel eu bod yn cyrraedd safon weddus.

Bydd y nifer cynyddol o bobl sy'n rhentu eu cartref gan landlord preifat yn cael budd o'r cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol newydd, a fydd yn cychwyn yn hydref 2015. Bydd y cynllun, sy'n cael ei gyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014, yn arwain at arferion gwell gan landlordiaid ac asiantau gosod. Fe'i hategir gan y darpariaethau yn y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2015. Os caiff ei basio gan y Cynulliad, bydd y darpariaethau yn y Bil yn arwain at gyfraith fwy teg a syml ar gyfer rhentu cartref, boed gan Awdurdod Lleol, Cymdeithas Dai neu landlord preifat.

Mae adfywio'n gysylltiedig â phobl a lle a'i nod yw creu lleoedd cynaliadwy dros y tymor hir er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y lleoedd hynny ac o'u hamgylch. Pwrpas y fframwaith adfywio *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* yw defnyddio buddsoddiad mewn newid ffisegol i helpu cymunedau lleol i gyflawni newid economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol parhaus. Gall ein buddsoddiadau presennol dan y fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid greu cylchoedd rhinweddol: gan wella ffabrig ffisegol cymunedau, cynnig swyddi a hyfforddiant i bobl leol yn y broses, ac yn aml wedyn darparu mannau ar gyfer cymorth gyda chyflogaeth neu fusnesau newydd – gan gynnwys busnesau gofal plant.

Fel hyn, gall rhaglenni adfywio gynnig gobaith newydd i aelwydydd heb waith. Mae gwella'r arlwy o ran tai a chanolau trefi trwy adfywio yn rhan annatod o'r fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a thrwy fuddsoddiad wedi'i gysylltu mae'n gwella ansawdd tai yn y sector preifat a'r sector rhentu ledled Cymru. Mae cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Arbed ac ECO wedi cael ei gyfuno i wella cynildeb tanwydd llawer o unedau gan wneud yn siŵr bod gan blant amgylchedd byw cynnes a diogel.

Adnoddau Naturiol

Y tu hwnt i ddiwallu ein hanghenion sylfaenol, gall adnoddau naturiol fod yn sbardun pwysig i sectorau twf economaidd pwysig, gan ddenu buddsoddiad a phobl grefftus a darparu cyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygiad technolegol gan hefyd helpu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a straeniau eraill. Yn y cyd-destun presennol, mae gan Gymru'r cyfle yn awr, trwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, i arwain yr ymgyrch Ewropeaidd a byd-eang i drechu tlodi, gwella safonau byw a chreu cyfoeth a thwf economaidd, yn enwedig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ardaloedd o dlodi plant yn tueddu i gyd-daro â mynediad cyfyngedig at fannau gwyrdd o ansawdd da, ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon, ansawdd aer gwael a sŵn gormodol, a lefelau isel o weithgarwch corfforol ac iechyd gwaeth yn gyffredinol. Gwyddom hefyd fod y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith anghymesur ar y bobl fwyaf agored i niwed, gan mai'r rhai sy'n cyfrannu leiaf at y broblem trwy allyriadau yw'r rhai sydd o bosibl yn cael eu taro fwyaf gan effeithiau'r

newid yn yr hinsawdd. Er mwyn gwneud ardaloedd yn fwy cadarn, yn lleoedd y mae teuluoedd am fyw ynddynt, ac y mae busnesau am fuddsoddi ynddynt, ac er mwyn annog ffyrdd iachach o fyw sy'n cynnwys gweithgareddau awyr agored a chyswllt â natur, mae angen adnabod ac ymdrin â blaenoriaethau amgylcheddol lleol. Mae cynnwys cymunedau lleol yn peri i bobl fod â mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn eu cymuned leol, yn eu hannog i wirfoddoli ac yn atal fandaliaeth ddilynol.

Trwy ddatblygu Bil yr Amgylchedd rydym yn gweithio i sefydlu dull statudol modern o reoli adnoddau naturiol a fydd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd sydd ar gael ac a fydd yn allweddol i hyfywedd hirdymor ein cymunedau trwy'r potensial i drechu tlodi a sbarduno adfywio. Hefyd, mae Tirweddau Dynodedig Cymru yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc brofi'r amgylchedd naturiol a dysgu oddi wrtho. Yn gysylltiedig â hyn mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru i gefnogi plant a phobl ifanc o gefndiroedd amddifadus, trwy weithredu eu *Strategaeth Cynhwysiant Cymdeithasol a Threchu Tlodi*.

Y celfyddydau a diwylliant

Mae Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cyfleu'r rôl bwerus y gall y celfyddydau a diwylliant ei chyflawni yn y broses o drechu tlodi. Adlewyrchir hyn yn y ddau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar y *Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru a Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*. Mae'r adroddiadau hyn yn disgrifio rôl bwysig diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau o ran ysbrydoli pobl i ddysgu ac ennill sgiliau, ac maent yn pwysleisio pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol i wella dyheadau, uchelgeisiau a rhagolygon plant a phobl ifanc. Mae'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn awr. Mae Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol wedi cael ei sefydlu i gydgyssylltu a llywio'r broses o wireddu'r weledigaeth yn Diwylliant a Thlodi. Bydd cydweithio agosach rhwng sefydliadau diwylliannol a chymunedol ar lefel genedlaethol a lleol yn ganolog i gyflawni'r argymhellion, a bydd yn galw am ymdrech â ffocws i dreialu ffyrdd newydd o weithio a dysgu ohonynt.

Y nod yn y tymor byr yw sefydlu nifer o Ardaloedd Arloesi ledled Cymru a fydd yn canolbwyntio ar helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n byw mewn un ardal Cymunedau yn Gyntaf neu fwy i ymgysylltu'n fwy parhaus â diwylliant a threftadaeth. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer yr ymyriadau diwylliannol sy'n cael yr effaith fwyaf ar gyrhaeddiad addysgol, sgiliau, iechyd a blaenoriaethau cenedlaethol eraill ac yn sicrhau bod diwylliant yn cael ei brif ffrydio o fewn y broses o gynllunio a gwerthuso'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn y tymor canolog a hirach, byddwn yn ceisio ymestyn dulliau llwyddiannus i ardaloedd a chymunedau eraill.

Bydd Cynllun y Celfyddydau a Dysgu Creadigol (*Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru, Mawrth 2015*) yn gweithredu argymhellion adroddiad Y Celfyddydau mewn Addysg. Nod y Cynllun yw cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd ym myd y celfyddydau mewn ysgolion, a gwella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd. Mae'n cefnogi tair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru

ar gyfer addysg, sef llythrennedd a rhifedd gwell a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Cyflawni Amcan 4: Creu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru

Mae swyddi, twf ac economi gref oll yn hanfodol i wireddu ein huchelgais i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Caiff rhai o'r prif ddylanwadau ar economi Cymru a'i gallu i greu swyddi yn y tymor byr a chanolig eu pennu y tu allan i Gymru – yn arbennig, amodau economaidd byd-eang a pholisïau ariannol a chyllidol Llywodraeth y DU. Er hynny, mae camau gweithredu'n cael eu cymryd i ddiogelu a chynnal swyddi presennol, rhoi cymorth i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd a gwella'r amodau cyffredinol ar gyfer twf cynaliadwy yng Nghymru. Yn y tymor byr, mae hyn yn golygu cymryd camau uniongyrchol i leddfu'r pwysau yn sgîl heriau a rhwystrau a wynebîr gan fusnesau i ysgogi buddsoddiad a hybu twf. Mae hyn yn cynnwys cefnogi busnesau trwy gymorth i ddechrau busnesau newydd a chymorth gyda chyllid, cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes wedi'u targedu, a datblygu arlwy gref o ran eiddo a thir.

Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu cymorth ar gyfer busnesau ledled Cymru. Ynghyd â chymorth wedi'i flaenoriaethu i nifer o sectorau allweddol mae'r Adran hefyd yn gweithio gyda chwmnïau angor i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf trwy eu cadwyni cyflenwi. Mae'r dull cytbwys hwn yn ysgogi galw am bobl hynod grefftus, yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur. Er enghraifft, gall y sector twristiaeth fod yn ffynhonnell cyflogaeth werthfawr ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru i'r rhai â sgiliau is neu i'r rhai ac arnynt angen oriau hyblyg, rhan-amser. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud mwy i hybu'r diwydiant twristiaeth fel llwybr gyrfâ cynaliadwy i bobl ifanc. Yn yr un modd, fel a nodir yn *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020* rydym am weld twf yn y diwydiant bwyd, a fydd yn ein helpu i wireddu ein huchelgeisiau i drechu tlodi ac i greu lle ar gyfer bwyd fel elfen ganolog o'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol cymdeithas yng Nghymru.

Bydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn sbardun ar gyfer trawsnewid hirdymor, gan greu economi wledig gadarn trwy ffocws ar dwf gwyrdd, sy'n darparu fframwaith i ddwyn cynnydd cynaliadwy sy'n creu ffyniant gan fod yn gadarn yn amgylcheddol ac yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae'r ffocws ar drawsnewid ein galluoedd busnes a chymdeithasol i fod yn gadarn ac yn ffyniannus yn y tymor hir yng nghyd-destun heriau allweddol, megis ein hinsawdd newidiol a chreu dyfodol gwell i'n plant a'r cenedlaethau ar eu hôl. Bydd yn cael ei defnyddio fel fframwaith i drechu tlodi lle caiff cyfleoedd eu cynnig gan y fframwaith rheoleiddiol a nodir gan yr UE ond yn benodol ceir ystod o gyfleoedd sy'n cynnwys cymorth i greu swyddi a datblygu sgiliau, entrepreneuriaeth, gwelliannau i'r sectorau amaethyddiaeth a bwyd, ynni cymunedol, trafnidiaeth wledig, band eang a dulliau lleol o fynd ar drywydd datblygu gwledig megis rhaglen LEADER. Bydd yn cefnogi gwasanaethau sylfaenol a chynlluniau adnewyddu pentrefi, ac yn cynnig cronfa a reolir yn ganolog (Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig) a fydd wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer sefydliadau cymunedol i gefnogi prosiectau sy'n amcanu at drechu tlodi.

Dros y tymor canolig, mae camau gweithredu'n cael eu cymryd a'r rheiny wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebwr gan rieni a gofawyr wrth geisio mynediad at gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i annog a hybu arferion busnes cyfrifol, megis gweithio hyblyg, sy'n galluogi pobl i weithio mewn modd sy'n cyd-fynd â'u cyfrifoldebau gofalu, neu weithio mwy o oriau a chynyddu'r cyflog y maent yn gallu ei ennill. Hefyd, mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r farchnad gofal plant a chynyddu nifer y busnesau gofal plant yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth. Dros y tymor hirach, mae camau gweithredu'n cael eu cymryd a fydd yn cynyddu capasiti cynhyrchu hirdymor economi Cymru, trwy fuddsoddiadau strategol mewn seilwaith, band eang cyflym iawn a darparu cymorth ar gyfer arloesi. Mae buddsoddi parhaus a phrosiectau pwysig megis trydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe a Chledrau'r Cymoedd, oll yn hanfodol i adferiad economi Cymru. Fel a nodir dan yr amcan yn y strategaeth hon i leihau diffyg gwaith, bydd yn bwysig mabwysiadu dull sy'n sicrhau manteision cymunedol ar gyfer mynd ar drywydd datblygiadau allweddol. Mae prosiectau seilwaith pwysig, gan gynnwys y rhai a gyllidir trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau o waith ymchwil sy'n cael ei wneud gan y ganolfan What Works for Tackling Poverty. Mae un o'r prosiectau ymchwil sy'n cael eu cyllido gan y Ganolfan yn canolbwyntio ar rôl gwahanol sectorau twf a chyflogaeth a'r cyfraniad y gallant ei wneud tuag at drechu tlodi, yn enwedig o ran darparu cyflogaeth gynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer camu ymlaen.

Rôl trafnidiaeth o ran trechu tlodi

Mae gan drafnidiaeth rôl alluogi bwysig mewn perthynas â'n huchelgais i ddileu tlodi plant. Mae argaeledd opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy yn rhagamod hanfodol ar gyfer pobl sy'n dilyn llwybrau allan o dlodi trwy gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg. Yn arbennig, bydd cysylltiadau trafnidiaeth newydd sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru yn bwysig o ran cynyddu cysylltedd, a helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Mae hefyd yn elfen allweddol o gynhwysiant cymdeithasol ehangach. Mae'r *Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol* yn nodi ein hamcanion a'n polisïau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn sicrhau argaeledd opsiynau trafnidiaeth trwy ddarparu cyllid uniongyrchol ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi gwasanaethau bysiau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, yn ogystal â thrwy ddarparu cyllid i redeg gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru. Rydym yn cyllido gwasanaethau allweddol pellach megis rhwydwaith bysiau TrawsCymru, gan ddarparu mynediad at ganolfannau cyflogaeth ac addysg allweddol ledled Cymru. Gyda Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, rydym yn rhoi pwyslais cynyddol ar wella'r seilwaith ar gyfer cerdded a beicio, sy'n cynnig opsiwn trafnidiaeth am ddim ac am gost isel ar gyfer siwrneiau beunyddiol.

Ar lefel yr unigolyn, mae cynllun teithio rhatach Llywodraeth Cymru yn cynnig yr hawl i deithio am ddim ar wasanaethau bysiau lleol a rhai trenau ledled Cymru i bobl hŷn neu anabl, ac i gyn-filwyr a chyn-bersonél y fyddin a anafwyd yn ddifrifol. Mae'r cynllun hwn yn lleihau'r baich o ran costau teithio i lawer o aelwydydd mewn tlodi, gan gynnwys y rhai â phlant. Yn fwy penodol, o fis Medi 2015 byddwn yn cyflwyno cynllun teithio rhatach i bobl ifanc a fydd yn rhoi gostyngiad o un rhan o dair ar brisiau tocynnau i bobl ifanc rhwng 16 a 18 pan ydynt yn ceisio mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Y tu hwnt i'w rôl alluogi o ran helpu mwy o bobl i gael mynediad at gyfleoedd i'w helpu allan o dlodi, mae gan yr Adran Drafnidiaeth rôl fwy uniongyrchol o ran lleihau tlodi. Mae'r Adran yn gwneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol mewn seilwaith trafnidiaeth newydd a gwell. Trwy ddefnyddio cymalau cymdeithasol yn ein contractau, rydym yn ceisio cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl mewn cymunedau lleol, er enghraifft trwy brentisiaethau. Rhoddir pwyslais arbennig ar geisio darparu cyfleoedd ar gyfer y rhai mewn aelwydydd heb waith. Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn parhau i geisio cynyddu cyfleoedd o'r fath i'r eithaf ar draws ein contractau uniongyrchol a'r cadwyni cyflenwi ehangach.

Cyflawni Amcan 5: Rhoi cymorth i deuluoedd “yn y presennol” gynyddu incwm eu haelwydydd a mynd i'r afael â'r premiwm tlodi

Mae helpu rhieni i gynyddu eu hincwm yn elfen allweddol o drechu tlodi plant. Yn arbennig, gall mentrau cynhwysiant ariannol a digidol helpu i liniaru effeithiau tlodi mewn gwaith trwy arfogi teuluoedd â'r sgiliau a'r adnoddau i “wneud i'w hincwm fynd yn bellach”. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o fuddsoddi yn yr agenda cynhwysiant ariannol, mewn cynlluniau cynyddu incwm, mewn darparu gwasanaethau cynghori a gostwng costau byw i aelwydydd incwm isel trwy wahanol hawliau a gwasanaethau cymorthdaledig. Bydd angen i gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r premiwm tlodi, lle mae aelwydydd incwm isel yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau megis bwyd, tanwydd, tai a chredyd, danategu'r amcan hwn hefyd. Mae cael eu heithrio o wasanaethau prif ffrwd yn golygu bod teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn aml yn talu mwy am anghenion sylfaenol. Er enghraifft, efallai na fydd aelwydydd yn gallu elwa o dariffau ynni a thanwydd rhatach, sy'n gysylltiedig â thaliadau trwy ddebyd uniongyrchol. Ar ben hynny, fel a nodwyd yn gynharach, mae'n hysbys bod aelwydydd â phlant a / neu rieni anabl yn wynebu costau byw uwch.

Yn y tymor byr, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi ymrwymo i ddiwygio Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn 2015/16. Bydd hyn yn rhoi cyfle pwysig inni gryfhau ein hymrwymadau presennol i sicrhau bod aelwydydd incwm isel yn cael cymorth i gyflawni canlyniadau economaidd gwell. Mae'n hanfodol helpu teuluoedd i gynyddu eu galluoedd ariannol. Bydd mynediad at gyllid fforddiadwy a chymorth i wasanaethau rheng-flaen (fel eu bod yn gallu rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â dyledion, budd-daliadau lles, tai, rheoli arian, cynyddu incwm a gwahaniaethu) yn parhau i gyflawni rôl hanfodol. Mae cefnogi teuluoedd â dyledion problemus yn arbennig o bwysig – gan ei bod yn aml yn wir

bod cyfraddau ad-dalu uchel ar gyfer dyledion yn effeithio ar swm yr incwm sydd ar gael i'r aelwyd wedyn i gwrdd â chostau byw sylfaenol.

Bydd teuluoedd yn cael eu cefnogi hefyd trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, sy'n darparu Taliadau Cymorth Brys a Thaliadau Cymorth Unigol ar gyfer teuluoedd agored i niwed sy'n wynebu anawsterau yn seiliedig ar angen y gellir dangos tystiolaeth ohono, ac Undebau Credyd, sy'n gwasanaethu'r wlad gyfan gan gynnig ystod o gynhyrchion cynilo a benthyca i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ei chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd.

Roedd yr *Adolygiad o Wasanaethau Cyngori* a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013 yn blaenoriaethu gwasanaethau cyngori cynaliadwy gyda sicrwydd ansawdd ac yn argymhell sefydlu Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i ddwyn ynghyd gyllidwyr, darparwyr cyngor a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu strategaeth i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig. O ran cymorth rheng-flaen, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido'r rhaglen Cyngor Da, Bywyd Da trwy Cyngor Ar Bopeth. Mae hon yn hybu iechyd gwell trwy wasanaethau cyngor wyneb yn wyneb gan gynnwys help wedi'i flaenoriaethu i deuluoedd â phlant anabl sydd wedi'i fwriadu i gynyddu incwm aelwydydd trwy hawlio budd-daliadau. Bydd Cyngor Da, Bywyd Da a Gwasanaethau Cyngori Rheng-flaen yn cael eu hadolygu yn ystod 2015/16. Bydd cefnogi aelwydydd incwm isel yn dal i fod yn flaenoriaeth, ochr yn ochr â chamau gweithredu i wella llythrennedd a gallu ariannol a sgiliau rheoli arian plant a phobl ifanc. Byddwn hefyd yn parhau i roi cyngor a chymorth gan gynnwys gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni i aelwydydd ar incwm isel gan helpu cartrefi i fod yn gynhesach ac yn rhatach i'w gwresogi. Mae'r meini prawf ar gyfer ein cynllun tlodi tanwydd Nyth yn golygu y bydd aelwydydd incwm isel â phlant yn cael cymorth.

Yn y tymor canolig a hir, bydd teuluoedd sy'n byw mewn tlodi'n cael eu helpu i gynyddu incwm eu haelwyd a gwneud i'w harian fynd yn bellach trwy gamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles, camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi bwyd, mynediad at ofal plant fforddiadwy, camau gweithredu i drechu tlodi mewn gwaith a thai ac adfywio.

Pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer cefnogi teuluoedd yn y presennol: Pam fod y rhain mor bwysig...

Lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles: Mae effeithiau'r diwygiadau lles yng Nghymru'n arbennig o lym i blant a theuluoedd sy'n byw'n agos at y llinell tlodi. Er gwaethaf y safbwyntiau gwahanol am agweddau ar ddiwygio lles a'r agenda ehangach, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf a chyflawni canlyniadau gwell.

Gofal Plant: Mae argaeledd gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn hanfodol i'r agenda trechu tlodi. Mae gofal plant fforddiadwy yn rhwystr gwirioneddol i rieni a gofawyr sy'n dymuno manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth lawn-amser (a helpu'r rhai sy'n ennill yr ail gyflog i weithio) yn hollbwysig er mwyn lleihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith a lleihau lefelau tlodi mewn gwaith.

Tlodi Bwyd: Mae tlodi bwyd (a ddiffinnir fel anallu i fforddio neu gael mynediad at fwyd sy'n darparu diet iach) yn broblem gynyddol yng Nghymru. Mae'n broblem a danategir gan nifer o wahanol ffactorau – gan gynnwys fforddiadwyedd, ymwybyddiaeth (sy'n gysylltiedig ag addysg, gwybodaeth a sgiliau) a mynediad neu argaeledd.

Tlodi mewn gwaith: Problem gynyddol yng Nghymru. Mae angen inni ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i drechu'r broblem – er enghraifft, trwy helpu aelwydydd i gynyddu eu henillion trwy fynediad at gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth lawn-amser sy'n talu'n dda, a helpu'r rhai sy'n ennill yr ail gyflog i weithio.

Tai ac adfywio: Mae tai ac adfywio'n cyflawni rôl hollbwysig o ran helpu pobl ifanc a theuluoedd incwm isel i gyflawni canlyniadau gwell. Ar yr un pryd, gall sectorau tai ac adfywio gyflawni rôl allweddol o ran lleihau tlodi trwy fabwysiadu dull sy'n sicrhau manteision cymunedol ar gyfer datblygiadau newydd.

Bydd camau gweithredu ac ymrwymadau newydd ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau allweddol hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ochr yn ochr â cherrig milltir cysylltiedig.

Dull Strategol

Nid un strategaeth ar wahân yw'r Strategaeth Tlodi Plant. Gan adlewyrchu natur drawsbynciol yr agenda trechu tlodi, mae cysylltiad uniongyrchol rhyngddi a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a strategaethau eraill a deddfwriaeth arall sy'n ceisio gwella canlyniadau i bobl o aelwydydd incwm isel.

Er mwyn amlygu'r cysylltiadau rhwng y Strategaeth Tlodi Plant a pholisïau a rhaglenni eraill sy'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru, mae Atodiad 1 yn cynnwys "model rhesymeg" ar gyfer pob amcan strategol. Mae'r modelau rhesymeg hyn yn dangos sut y bydd gwahanol feysydd polisi'n cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau bwriadedig y Strategaeth.

Cysylltiadau â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

O ran yr ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i drechu tlodi plant, gwyddom fod llawer y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i atal tlodi (er enghraifft, trwy barhau i roi pwyslais cryf ar y blynyddoedd cynnar ym mywyd plentyn a thrwy gymryd camau i wella cyrhaeddiad addysgol), i liniaru effaith tlodi (er enghraifft, trwy wella mynediad at wasanaethau hanfodol), ac i helpu pobl i gael gwaith (er enghraifft, trwy gynyddu sgiliau a chefnogi pobl ifanc). Am y rheswm hwn, y meysydd allweddol hyn fydd y ffocws ar gyfer camau gweithredu sy'n cael eu cymryd o dan ein *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Mae'r Cynllun Gweithredu yn disgrifio sut y byddwn yn mynd ati i drechu tlodi plant. Mae'n cynnwys pwyslais cryf ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel, gyda thargedau penodol sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r tri amcan strategol yn Strategaeth 2011.

Fodd bynnag, gwyddom na allwn "sefyll yn ein hunfan". Caiff y camau a gymerir i gyflawni themâu allweddol y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* eu hadolygu'n barhaus, wrth inni geisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Bydd holl adrannau Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd, i sicrhau bod polisïau a rhaglenni presennol a newydd yn cael eu targedu'n fwy penodol i gefnogi plant ac oedolion mewn aelwydydd a chymunedau difreintiedig.

Caiff y cynnydd gyda'r camau gweithredu yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* ei adolygu'n rheolaidd. Rydym yn ymrwymedig i gynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol. Yn ogystal ag adrodd yn onest ar ein perfformiad wrth fynd ar drywydd targedau a cherrig milltir, mae'r adroddiadau cynnydd yn diweddarau'r agenda trwy nodi camau pellach i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau tlodi yng Nghymru. Yn arbennig, mae'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn rhoi'r cyfle inni nodi camau gweithredu penodol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion ar gyfer trechu tlodi plant.

Cysylltiadau â pholisïau a rhaglenni eraill

Mae'r Strategaeth hon yn bodoli ochr yn ochr â nifer y gynlluniau, polisïau a strategaethau allweddol eraill. Mae'n bwysig cydnabod natur drawsbynciol yr agenda

trechu tlodi a'r cyfraniad y mae'r rhain yn ei wneud tuag at un neu fwy o'r amcanion strategol yn y ddogfen hon. Nid yw'r Strategaeth hon wedi'i bwriadu i ailadrodd y camau gweithredu penodol sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau, polisïau a strategaethau eraill. Yn hytrach, mae'r Strategaeth Ddiwygiedig yn nodi'r canlyniadau yr ydym yn amcanu at eu cyflawni. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar draws Llywodraeth Cymru a fydd yn ein galluogi i wneud mwy o gynnydd a hynny ar y cyflymder angenrheidiol.

Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn gwneud mwy i gysylltu ein cynlluniau a'n polisïau presennol â gwaith sy'n cael ei wneud yn ein cymunedau difreintiedig gan ein rhaglenni trechu tlodi: Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu fframwaith canlyniadau cyffredin ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf. Bydd y fframwaith canlyniadau cyffredin o gymorth i fesur perfformiad ar draws y tair rhaglen ac yn helpu i wella'r modd y cânt eu cysoni â'i gilydd a'u cynllunio.

Dull Cynhwysol

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dweud yn gyson na all drechu tlodi ar ei phen ei hun. Yn arbennig, gwyddom nad oes gobaith inni gyflawni gostyngiadau sylweddol mewn tlodi plant heb gefnogaeth y Sector Cyhoeddus ehangach, y Sector Preifat a'r Trydydd Sector, y mae ganddynt oll rôl hollbwysig. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n barhaus â phlant a phobl ifanc i geisio'u safbwyntiau ar ein dull o drechu tlodi. Mae deddfwriaeth sydd ar ddod megis Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi'r cyfle inni ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cyffredin.

Dull cydweithredol o drechu tlodi yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru'n dal i fod yn ymrwymedig i ddefnyddio dull cydweithredol o drechu tlodi plant. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth y gallwn obeithio cyflawni newid ar y lefel a'r cyflymder sy'n angenrheidiol i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Mae maint yr her sydd o'n blaenau, effeithiau'r diwygiadau lles yng Nghymru a'r adferiad parhaus ar ôl y dirwasgiad diweddar yn ei gwneud yn bwysicach byth ein bod yn defnyddio dull amlasiantaeth. Gwyddom na allwn drechu tlodi ar ein pen ein hunain ac mae ystod o bartneriaid allweddol y byddwn yn parhau i weithio ac ymgysylltu â hwy, er mwyn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau a fuddsoddir ar lefel genedlaethol a lleol yn yr agenda trechu tlodi

Cydnabu Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 rôl hollbwysig Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus eraill o ran gwella canlyniadau i aelwydydd incwm isel. Ond gwyddom hefyd fod y Sector Preifat a'r Trydydd Sector yn hanfodol hefyd.

Fel Llywodraeth Cymru, mae angen inni fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan wahanol asiantaethau a sefydliadau a sut y gallwn gydweithio i gyflawni canlyniadau cyffredin, ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd ffocws ar gydweithio'n helpu i osgoi dyblygu hefyd, yn enwedig o ran y polisiau a'r rhaglenni sy'n cael eu cyflawni a'r adnoddau a fuddsoddir i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Ar yr un pryd mae'n hanfodol bod gwahanol gyfraniadau'n cael eu monitro'n effeithiol ac yn barhaus. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol rôl allweddol o ran sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus, ac nid dim ond Awdurdodau Lleol, yn canolbwyntio ar yr agenda hon.

Gweithio gyda'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae'n bwysig bod Awdurdodau Lleol a'r Sector Cyhoeddus ehangach yn ystyried y Strategaeth hon wrth adolygu eu Strategaethau ac amcanion eu hunain ar gyfer Tlodi Plant. Bydd y dull hwn yn adeiladu ar y sefyllfa unigryw yng Nghymru lle mae Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithio tuag at yr un amcanion i ddileu tlodi plant.

Rydym yn cydnabod bod Hyrwyddwyr Gwrthdlodi Awdurdodau Lleol yn bartneriaid allweddol yn y broses o roi'r agenda tlodi plant ar waith ar lefel leol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r rhwydwaith hwn o hyrwyddwyr trwy

Ddigwyddiadau Rhanbarthol Trechu Tlodi, a fydd yn canolbwyntio ar gydweithio i gyflawni canlyniadau gwell i'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel.

O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, bydd gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus (megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Parciau Cenedlaethol Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub ac Amgueddfeydd Cenedlaethol) oll ddyletswydd i bennu amcanion penodol a datblygu strategaethau ar gyfer trechu tlodi plant. Mae Awdurdodau Lleol wedi gallu cyflawni'r ddyletswydd hon trwy eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ac yn ddiweddarach trwy Gynlluniau Integredig Sengl Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Cynlluniau Integredig Sengl Byrddau Gwasanaethau Lleol i asesu i ba raddau y maent yn canolbwyntio ar drechu tlodi plant. Yn arbennig, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'u Hyrwyddwyr Gwrthdlodi i adnabod arfer da a chyfleoedd i gryfhau dulliau presennol. Bydd yn bwysig cefnogi BGLlau a Hyrwyddwyr Gwrthdlodi Awdurdodau Lleol i annog yr holl bartneriaid lleol ymgysylltu â'r agenda tlodi.

O ran cyflawni'n lleol, mae dulliau megis Tîm o Amgylch y Teulu, lle mae timau wedi bod yn gweithio gydag ystod eang o wahanol bartneriaid (gan gynnwys ysgolion, Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Cyngor Ar Bopeth, Canolfan Byd Gwaith a Thimau Troseddwyr Ifanc), yn hollbwysig i gefnogi teuluoedd mewn ffordd gydgyssylltiedig. Hefyd, bydd mentrau megis datblygu'r fframwaith canlyniadau cyffredin ar gyfer rhaglenni trechu tlodi'n cyflawni rôl bwysig o ran cysoni buddsoddiadau a ffocws ar flaenoriaethau cyffredin.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Chyrff Cyhoeddus eraill a enwir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i sicrhau ffocws parhaus ar drechu tlodi plant a gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae gan nifer o Gyrff Cyhoeddus hanes o ymgysylltu a gweithio ar y cyd â'n Rhaglenni Trechu Tlodi, Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a Cefnogi Pobl.

Gweithio gyda'r sector Preifat / Busnes yng Nghymru

Yn erbyn cefnlen o doriadau mewn gwariant cyhoeddus, mae angen inni fod yn cydweithio'n agos gydag ystod o wahanol sefydliadau a all ein helpu i gyflawni'r canlyniadau yn y strategaeth hon. Mae ein hymgyngghoriad ynghylch y Strategaeth Tlodi Plant wedi dangos inni bod cefnogaeth sylweddol i gydweithio agosach o lawer rhwng Llywodraeth Cymru a'r Sector Preifat. Mae gan bartneriaid yn y Sector Preifat gryn dipyn i'w gynnig, yn enwedig o ran creu swyddi, helpu aelwydydd incwm isel i gael cyflogaeth sy'n talu cyflog byw, trefniadau gweithio hyblyg, gofal plant a datblygiad mewn gwaith.

Mae'r Rhaglen Esgyn, Twf Swyddi Cymru a chynlluniau prentisiaeth oll yn enghreifftiau lle gall y Sector Preifat wneud cyfraniad pwysig. Mae dulliau o ran caffael sy'n seiliedig ar gymalau cymdeithasol a manteision cymunedol, yn ogystal â chymorth ariannol i gymunedau lleol a grwpiau cymunedol yn bwysig hefyd. Ar lefel

genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ystod o wahanol gynrychiolwyr o'r sector preifat a'r sector busnes yng Nghymru, gyda golwg ar adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio a ffocws ar amcanion allweddol y strategaeth hon.

Gweithio gyda'r Trydydd Sector yng Nghymru

Bydd yn bwysig ein bod yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y Trydydd Sector, gan gynnwys sefydliadau megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac aelodau o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae ehangder a dyfnder y Trydydd Sector yng Nghymru – gyda mwy na 33,000 o sefydliadau gan gynnwys llawer sy'n gweithio'n uniongyrchol i drechu tlodi – yn cynnig cyfleoedd enfawr, yn enwedig o ran buddsoddi yn y cymunedau hynny sydd â'r crynodiadau uchaf o aelwydydd incwm isel. Mae pob math o grwpiau lleol, sefydliadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol yn cyfrannu at les y cymunedau hyn. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod yr adnoddau sydd ar gael yn mynd yn llai ac rydym am weithio gyda'r sector i ddod o hyd i ffyrdd o'i wneud yn fwy cadarn. Fel hyn gall y Trydydd Sector gynyddu i'r eithaf ei rôl hollbwysig o ran helpu i ddatblygu cadernid ymhlith cymunedau, sydd yn ei dro'n gallu cael effaith ar ymgysylltiad cymdeithasol a lles emosiynol.

Mae ystod o wahanol sefydliadau yn y Trydydd Sector sydd eisoes yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig ac yn eu helpu i gyflawni canlyniadau gwell, o sefydliadau cymunedol bach i elusennau mwy megis Ymddiriedolaeth y Tywysog. Hefyd, mae sefydliadau i'w cael yn y Trydydd Sector sy'n cefnogi'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda phobl anabl a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio gyda sefydliadau yn y Trydydd Sector (ar lefel genedlaethol a lleol) i sicrhau buddsoddiad parhaus yn y blynyddoedd cynnar, gan gynyddu sgiliau, helpu pobl ifanc i gael gwaith a gwella cyfleoedd bywyd.

Gweithio gyda rhanddeiliaid eraill

Byddwn yn cydweithio'n agos gyda Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi yn parhau i oleuo ein dull o drechu tlodi a thlodi plant. Yn ddiweddar iawn, mae hyn wedi cynnwys cyngor ac argymhellion gan y Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi ynghylch yr economi, trechu tlodi mewn gwaith a chyflawni ein rhaglenni allweddol ar gyfer trechu tlodi. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau allanol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd trwy Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, a gydgyssylltir gan Plant yng Nghymru, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Trydydd Sector a'r sector statudol. Mae aelodau'n gweithio i sicrhau bod polisïau wedi'u sefydlu ar bob lefel mewn Llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Yn ogystal â gweithio gyda'r Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi a Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnull Grŵp Ymarferwyr i sicrhau bod polisiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn addas ar gyfer y diben ac yn diwallu anghenion pobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Bydd y Grŵp Ymarferwyr yn ategu gwaith y Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi a Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Bydd yn rhoi cyfle ar gyfer adborth uniongyrchol gan staff rheng-flaen sy'n darparu rhaglenni a mentrau ar gyfer unigolion mewn cymunedau difreintiedig.

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi cyfle pellach inni gryfhau ein dull cydweithredol o drechu tlodi yng Nghymru. Mae'r Bil yn cynnig pennu nodau hirdymor uchelgeisiol i adlewyrchu'r Gymru a garem yn y dyfodol. Y nodau arfaethedig hyn yw creu Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd cyrraedd y nodau hyn yn helpu plant i gyrraedd eu llawn botensial trwy roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd, a bydd hynny yn ei dro'n gadael etifeddiaeth well i'n plant a'n hwyrion. Bydd hyn yn galw am gydymdrech a chydweithio gwell rhwng y Sector Cyhoeddus, y Sector Preifat a'r Trydydd Sector, er mwyn iddynt weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r heriau mawr yr ydym ni i gyd yn eu hwynebu: y newid yn yr hinsawdd, swyddi a thwf, sgiliau, anghydraddoldebau iechyd a threchu tlodi. Mae'r Bil hefyd yn rhoi Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sail statudol ac yn symleiddio'r gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig. Bydd y datblygiadau hyn yn hollbwysig i gyflawni dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau o drechu tlodi a thlodi plant ar lefel leol.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn pennu cyd-destun newydd ar gyfer cysylltiadau rhwng y Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol, a'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru: bydd Gweinidogion Cymru yn pennu cyfeiriad strategol cenedlaethol a bydd Llywodraeth Leol yn pennu amcanion lleol, a fydd yn ymatebol i anghenion lleol ac yn ddarostyngedig i drefniadau atebolrwydd lleol.

Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u haelodau'n rhannu cydgyfrifoldeb am baratoi asesiadau llesiant lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol, a fydd yn disodli Strategaethau Cymunedol a Chynlluniau Integredig Sengl. Wrth benderfynu ar flaenoriaethau lleol ar gyfer Cynlluniau Llesiant, bydd angen i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ystyried llesiant grwpiau agored i niwed a difreintiedig. Byddem yn disgwyl i hyn gynnwys ffocws ar y rhai sy'n byw mewn tlodi. Er y bydd y gofyniad i fod â chynllun plant a phobl ifanc ar wahân yn cael ei ddiddymu, bydd y dyletswyddau yn Neddf Plant 2004 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 mewn perthynas â thlodi plant yn dal mewn grym ac yn cael eu cyflawni trwy'r Cynllun Llesiant Lleol.

Mae'r Bil yn tanategu agenda diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan nodi'n eglur sut y bydd cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Leol, yn gweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cenedlaethol a lleol. Mae'r Bil yn rhoi pwyslais arbennig ar feddwl am y tymor hir, dull integredig, camau gweithredu ataliol, cydweithio a chynnwys pobl,

gan sicrhau bod y bobl a'r cymunedau y mae eu llesiant yn cael ei ystyried yn chwarae rhan yn y broses o ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'n hanfodol cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi er mwyn inni wireddu ein huchelgais i ddileu tlodi plant. Gwyddom fod pobl anabl, gofalwyr ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal mewn perygl yn arbennig o gael canlyniadau gwaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ganolog i drawsnewid gofal a chymorth yng Nghymru. A hithau wedi'i integreiddio ag iechyd, mae'n cynnwys pwyslais sylfaenol ar atal ac ymyrryd i sicrhau canlyniadau gwell. Caiff y Ddeddf ei thanategu gan lais a rheolaeth, hybu annibyniaeth (a chanolbwyntio ar unigolion fel pobl yn hytrach na phlant neu oedolion), darparu hawliau ar gyfer gofalwyr, cryfhau trefniadau diogelu a sefydlu mecanweithiau codi tâl teg a chynaliadwy. Mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i sicrhau ffocws parhaus ar ddiwallu anghenion y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn tlodi.

Ymgysylltiad Parhaus â Phlant a Phobl Ifanc

Mae'n hanfodol ymgynghori â phlant a phobl ifanc, gwranddo arnynt a gweithredu ar eu barn ac mae'r Strategaeth hon yn cynnwys ymrwymiad i gynnwys cyfranogiad pobl ifanc yn y broses o ddatblygu polisiau a rhaglenni i gyrraedd y targedau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

O ganlyniad i weithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn llawn, dylai barn plant a phobl ifanc gael ei hystyried mewn deddfwriaeth, polisiau a phenderfyniadau gan Weinidogion ar draws y Llywodraeth i roi hawliau plant ar waith ymhellach. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Erthygl 12, sy'n datgan bod "gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt nhw, ac i'w barn gael ei hystyried".

Mae'n hanfodol sicrhau bod barn a lleisiau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu hystyried er mwyn casglu gwybodaeth am y profiad o fyw mewn tlodi. Mae amrywiaeth o fecanweithiau wedi'u sefydlu'n barod i sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys ac yn chwarae rhan yn y broses benderfynu. Mae sicrhau bod gan blant lais gweithredol a'u bod yn gallu cyfranogi ym mhrosesau gweithredu'r Llywodraeth yn thema allweddol yn y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd newydd. Bydd yn hollbwysig sefydlu mecanweithiau cenedlaethol a gweladwy i helpu'r rhai sy'n llunio polisiau, ymarferwyr ac eraill i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a chlywed eu barn. Bydd yn bwysig parhau â'n hymgysylltiad â'r Comisiynydd Plant a'r gwaith y mae'n ei wneud trwy ei Gynllun Llysgenhadon Cymunedol, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol a Hyrwyddwyr Gwrthdlodi a'u gwaith gyda fforymau ieuenctid lleol.

Fel rhan o'r ymrwymladau hyn ynglŷn ag ymgysylltu, byddwn yn ystyried a ddylid sefydlu mecanweithiau ychwanegol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc i oleuo datblygiad y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*.

Atebolrwydd ac Adrodd ar Gynnydd

Er mwyn mesur cynnydd o ran cyflawni'r newidiadau yr ydym yn dymuno i'r Strategaeth Tlodi Plant eu cyflawni, rydym yn bwriadu defnyddio set fach o ddangosyddion allweddol. Y dangosyddion yn yw:

- % y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (Ar Ôl Costau Tai)
- % y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio (Ar Ôl Costau Tai)
- % y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith
- % yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau
- % yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefelau 2, 3 neu 4 ac uwch.
- % y plant mewn aelwydydd incwm isel sy'n cyrraedd cerrig milltir o ran iechyd, datblygiad cymdeithasol a gwybyddol erbyn eu bod yn dechrau addysg ffurfiol.
- % y plant 7 oed sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim ac sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- % y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim ac sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg / Saesneg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4
- % y bobl ifanc 16 – 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- % y bobl ifanc 19 – 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- % y babanod (genedigaethau byw) sy'n cael eu geni â phwysau geni isel (sef o dan 2,500 gram yn ôl y diffiniad)


Byddwn yn adrodd ar y prif ddangosyddion hyn ar gyfer tlodi plant fel rhan o'r *Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar nifer o ddangosyddion eraill hefyd, sy'n berthnasol i'r cerrig milltir a'r targedau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu 2013. Y Bwrdd Gweithredu ar Drechu Tlodi sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r polisïau a'r rhaglenni sy'n cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn ar gyfer y boblogaeth. Un o rolau allweddol y Bwrdd Gweithredu yw dwyn gwahanol adrannau i gyfrif am y camau gweithredu sy'n tanategu'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Tlodi Plant. Mae adrannau'n gyfrifol am adrodd ar gynnydd – gyda mesurau perfformiad wedi'u sefydlu i fonitro pa un a yw'r sefyllfa'n well i blant a theuluoedd o ganlyniad i'r cymorth a'r ymyriadau y maent wedi'u cael.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adrodd ar berfformiad polisïau a rhaglenni unigol fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu a'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, gan felly sicrhau ffocws penodol (a pharhaus) ar gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.


Atodiad 1: Cyflawni amcanion strategol y Strategaeth Tlodi Plant, 6 Model Rhesymeg

Mae'r Modelau Rhesymeg yn nodi sut yr ydym yn rhagweld y bydd gwahanol bolisiâu a rhaglenni'n cyfrannu at gyflawni amcanion y Strategaeth Tlodi Plant hon. Bydd y modelau hyn yn cael eu cryfhau wrth inni ddatblygu canlyniadau a cherrig milltir interim ar gyfer trechu tlodi plant hyd at 2020.


Model Rhesymeg: Diffyg Gwaith




Model Rhesymeg: Sgiliau




Model Rhesymeg: Lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysg



Model Rhesymeg: Lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd



Model Rhesymeg: Cyflogaeth ac Economi Gref



Model Rhesymeg: Cynyddu Incwm

